





Cadeirlan
Deiniol Sant
ym Mangor

Saint Deiniol's
Cathedral
in Bangor





Yr Eglwys yng Nghymru
The Church in Wales

Ordeiniad a Chysegriad i Urdd Esgob
The Ordination and Consecration
to the Order of Bishop of

John Derrick Percy Lomas ^a | and
Mary Kathleen Rose Stallard

Cadeirlan ac Eglwys Archesgobol
Deiniol Sant ym Mangor
2.30pm
Dydd Sadwrn 26 Chwefror 2022
The Cathedral & Metropolitan Church
of Saint Deiniol in Bangor
2.30pm
Saturday 26 February 2022

Oddi wrth Archesgob Cymru



Rydym yn ymgynnull heddiw i dystio i'r Ysbryd Glân ar waith. Wedi ein harwain gan ddirnad yr Ysbryd, byddwn ni, bobl Dduw, yn cymeradwyo teilyngdod galwedigaeth John a Mary. Уна, yn dryw i draddodiad oesol yr Eglwys, bydd esgobion yn arddodi dwylo arnynt, fel arwydd sagrafennol o Ysbryd Duw yn eu neilltuo'n fugeiliaid i bobl Dduw yma yng Nghymru.

Aiff John o'r fangre hon i arwain a gwasanaethu pobl Dduw yn Esgobaeth Abertawe ac Aberhonddu, ac i arwain ein gwaith taleithiol ym meysydd efengylu a thwf. Bydd Mary yn gyfrifol am oruchwylio gweinidogaeth a chenhadaeth ym mhob cwr o Esgobaeth Bangor, wrth i ni ymdrechu i gyflawni ein galwad i addoli Duw, tyfu'r Eglwys a charu'r byd.

Gweddïwch drostynt, nid yn unig heddiw, ond dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf; a gweddïwch, hefyd, drosof fi, fy nghyd-esgobion, a holl ffyddloniaid yr Eglwys yng Nghymru wrth inni geisio cysegru, gweithredu a byw dros Grist ledled ein cenedl.



From the Archbishop of Wales

We gather today to witness the Holy Spirit at work. Guided by the Spirit's discernment, we, the people of God, will assent to the worthiness of John and Mary's vocation. Then, following the ancient tradition of the Church, bishops will lay hands upon them, as a sacramental sign of God's Spirit setting them aside to be shepherds of God's people here in Wales.



John will go from this place to lead and serve God's people in the Diocese of Swansea & Brecon, and to lead our provincial work in the areas of evangelism and growth. Mary will have responsibility for the oversight of ministry and mission within the Diocese of Bangor, as we strive to fulfil our calling to worship God, grow the Church and love the world.

Please pray for them, not only today, but over the weeks and months ahead; and pray, too, for me, my fellow bishops, and all the faithful people of the Church in Wales as we seek to bless, act and live for Christ across our nation.

+ *Andrew Cambrensis*



Oddi wrth Is-Ddeon Cadeirlan Deiniol Sant ym Mangor



Rydych chi'n sefyll rwan lle safodd
Deiniol bron i fileniwm a hanner yn ôl.

Yma, yn y flwyddyn 525, bu iddo gynnull
o'i gwmpas gymuned lawn ffydd, gobaith a
chariad, gan godi o'i chwmpas ffens gyll – y
“bangor” gwreiddiol – iddi'n gysgod ac yn
noddfa.

Fel cynifer o eglwysi ledled y dalaith, rydym
wedi bod yn ymdrechu dros y misoedd
diwethaf i gamu'n ffyddiog oddi wrth
bryderau'r cyfnod clo i gyfnod o dystiolaethu
a gwasanaethu o'r newydd. O fwrdd yr allor
i'n banc bwyd, rydym yn gweithio'n galed i
rannu ffydd, gobaith a chariad er mwyn ein
dinas a'n hesgobaeth, ac, yn awr fel eglwys
archesgobol, er mwyn ein talaith gyfan.
Mae cynlluniau cyffrous ar y gweill i gynnal
a chadw'r muriau, i harddu ein cysegrfeydd,
i adlunio Corff yr Eglwys, i wasanaethu
ein cymuned mewn ffyrdd newydd, ac i
groesawu pererinion â lletygarwch ddyfnach
– oll mewn pryd i ddathlu ein penblwydd yn
fileniwm a hanner oed yn 2025.

I ddysgu mwy am ein bywyd ar y cyd yma
yn y Gadeirlan, mynnwch gopi o **Buchedd
Bangor**, cylchgrawn y Gadeirlan, neu
gwelwch gopi digidol trwy'r côd QR.

Gweddïwn yma feunydd dros yr Eglwys
yng Nghymru. O'ch trugaredd, gweddïwch
hefyd drosom ni. A dewch nôl ar bererindod
i Fangor – bydd croeso cynnes i chi bob
amser yn y fangre hon o ffydd, gobaith a
chariad i bawb.



From the Sub-Dean of Saint Deiniol's Cathedral


You stand now where Deiniol stood
almost a millennium and a half ago.

Here, in the year 525, our founder gathered
around him a community of faith, hope and
love, and raised around it a hazel fence
– the original “*bangor*” – for shelter and
sanctuary.


Like so many churches across the province,
we have been striving these past few
months to step with confidence and faith
from a time of lockdown and anxiety into
a time of renewed witness and service.
From our altar-table to our foodbank, we
are working hard to share faith, hope and
love for our city and diocese, and, now as
a metropolitan church, for the whole of
our province. We have exciting plans for
the coming years to conserve our fabric, to
beautify our sanctuaries, to refit our Nave,
to serve our community in new ways, and to
welcome pilgrims with a deeper hospitality,
all ahead of celebrating our millennium-and-
a-half anniversary in 2025.

To learn more about our common life here
at the Cathedral, please pick up a copy of
Buchedd Bangor, our Cathedral magazine,
or read a digital copy via the QR code.

We pray here daily for the Church in Wales.
Of your mercy, pray also for us. And do not
let this be your only pilgrimage to Bangor
– there will always be a warm welcome for
you in this place of faith, hope and love for
all.



Canon Siôn B. E. Rhys Evans



Buchedd Bangor



Addoli gyda ni heddiw

Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys popeth a ddywedir ac a genir yn ystod ein haddoliad heddiw. Fe'ch gwahoddir i fynd â'r llyfryn adref gyda chi, i fyfyrion yn eich amser eich hun ar y geiriau sanctaidd sydd ynddo. Fodd bynnag, nid darllen neu arsylwi ydi addoli – ond gweithgaredd, a ninnau'n cymryd rhan, ochr yn ochr â'r rhai sy'n cynnull gyda ni ac, y tu hwnt i hynny, ochr yn ochr â llu'r nef i gyd. Dyrchefwch, felly, eich llygaid; sylwch ar liw, golau, sain, symudiad a harddwch; codwch eich llais; cyfranogwch yn yr hyn a fydd yn eich gweddnewid, o roi iddo'r cyfle.

Yn ystod ein haddoliad, rydyn ni'n dweud ac yn canu gyda'n gilydd y testun mewn **teip trwm**. Yn ôl ein harfer mewn gwasanaethau dwyieithog, darperir cyfieithiadau o ieithoedd tramor. Mae croeso ichi wneud arwydd o'r Groes pan fydd y geiriau wedi'u marcio ag ✝. Cynigir cyfarwyddiadau eraill (rhuddellau) mewn **teip coch**; os ydych chi'n ei chael hi'n fwy cyfforddus, eisteddwch yn hytrach na sefyll neu benlinio.

Waeth pa mor bell yn ôl y gwnaethoch hynny ddiwethaf, mae croeso i chi Gymuno yma heddiw.

Hygyrchedd

Mae dolen glyw ar waith – gosodwch gymhorthion clyw i'r lleoliad T.

Mae copiâu print bras o'r llyfryn hwn ar gael gan y stiwardiaid.

Os oes angen waffer heb glwten arnoch (yn cydymffurfio â'r gofyniad canonaidd am 20 rhan o glwten fesul miliwn), Cymunwch yng Nghorff yr Eglwys, gan hysbysu'r Gweinidog o'ch hangen.

Mae tai bach ym mhen dwyreiniol y Gadeirlan, trwy'r drws i'r chwith o'r sgrin y Cwîr.

Os bydd angen i ni adael y Gadeirlan mewn argyfwng, arhoswch ar eich heistedd a dilynwch gyfarwyddiadau'r Stiwardiaid.

Diogelu

Mae diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl yn hanfodol, ac rydym wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd lle mae pawb yn gallu addoli a chymryd rhan ym mywyd Cadeirlan Deiniol Sant yn ddiogel. Os oes gennych bryder, cysylltwch ar unwaith gydag aelod o dîm y Gadeirlan.

Cynaliadwyedd a chaniatâd

Rydym yn defnyddio papur Munken, sy'n bapur ardystiedig Cradle Certified®, o felin bapur Munkedals yn Sweden, un o'r melinau papur mwyaf cynaliadwy yn y byd.

Caiff y gwasanaeth hwn ei ffrydio'n fyw, a chaiff y recordiad ei osod arlein maes o law. Mae ffotograffydd swyddogol ar ddyletswydd. Mae eich presenoldeb yn gyfystyr â'ch caniatâd i gael eich cynnwys mewn unrhyw ffilmio, tynnu lluniau, recordio sain neu ddarlledu. Os nad ydych am i ffotograff ohonoch chi neu blentyn yn eich gofal gael ei ddefnyddio gennym, cysylltwch ag aelod o dîm y Gadeirlan.

Clawr

Ar y clawr mae llun gan Jacob Capener a dynnwyd yn Nolfor, ger y fan lle mae Esgobaethau Bangor, Llanelwy ac Abertawe ac Aberhonddu yn cwrdd.

Cydnabyddiaethau

Atgynhyrchir deunydd yn y drefn hon o wasanaeth o dan CLL 280874.

Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnwys rhannau o'r **Drefn ar gyfer y Cymun Bendigaid 2004** a'r **Ordinal Amgen 2004** hawlfraint © Gwasg yr Eglwys yng Nghymru 2004.

Mae'r llithoedd a'r salmyddiaeth Gymraeg yn seiliedig ar **The New Revised Standard Version of the Bible** ac **Y Beibl Cymraeg Newydd: Argraffiad Diwygiedig**. Daw cytgan y salmyddiaeth Gymraeg o Nicander, **Y Psallwyr** (1850) a'r salmyddiaeth Saesneg o **The Saint Helena Breviary** (2019).

Mae ffurfdeipiau Scilla, Sawton a Wotfard gan Ffowndri Atipo.

Worshipping with us today

This booklet contains everything said and sung during our worship today. You are invited to take the booklet away with you, to reflect in your own time on the holy words it contains. However, worship is not primarily something that we read or observe – it is an activity, in which we all participate, alongside those who are gathered with us and, we believe, alongside the whole company of heaven. Be sure, therefore, to look up; to notice colour, light, sound, movement and beauty; to raise up your voice; to take your full part; to be formed and transformed.

During our worship, we say and sing together the text in **bold type**. According to our custom for bilingual services, translations into English are provided from Welsh and other languages. We may make a sign of the Cross at times when the words are marked with ✠. Other directions (rubrics) are offered in **red type**; if you find it more comfortable to sit rather than stand or kneel, please do so.

No matter how long ago you last did so, you are welcome to make your Communion with us here today.

Accessibility

A hearing loop is in use – please set hearing aids to the T setting.

Large print copies of this booklet are available from the stewards.

If you have need of a gluten-free wafer (conforming to the canonical requirement for 20 parts gluten per million), please make your Communion in the Nave and indicate the requirement to the Minister.

Lavatories are located at the east end of the Cathedral, through the door to the left of the Quire screen.

If we need to evacuate the Cathedral in an emergency, please remain seated and follow the directions of the Stewards.

Safeguarding

Safeguarding children and adults at risk is vital, and we are committed to fostering an environment where everyone is able to worship and participate in the life of Saint Deiniol's Cathedral in safety. If you have any concerns, raise them immediately with a member of the Cathedral team.

Sustainability and permissions

We use Munken paper, which is Cradle to Cradle Certified®, from the Munkedals paper mill in Sweden, one of the most sustainable paper mills in the world.

The service is being live-streamed and the recording will be made available thereafter online. An official photographer is on duty. Your attendance constitutes your consent to be included in any filming, photographing, audio recording or broadcast. If you do not wish a photograph of you or a child in your care to be used by us, please speak to a member of the Cathedral team.

Cover

On the cover is a photograph by Jacob Capener taken at Dolfor, near the place at which the Dioceses of Bangor, St Asaph and Swansea & Brecon meet.

Acknowledgements

Material in this order of service is reproduced under the CLL 280874.

An Order for the Holy Eucharist 2004 and **An Alternative Ordinal**, material from which is included in this service, are copyright © Church in Wales Publications 2004.

The lessons and Welsh-language psalmody are based on **The New Revised Standard Version of the Bible** and **Y Beibl Cymraeg Newydd: Argraffiad Diwygiedig**. The Welsh-language psalmody refrain is from Nicander, **Y Psallwyr** (1850); the English-language psalmody is that of **The Saint Helena Breviary** (2019).

The Scilla, Sawton and Wotfard typefaces are by Atipo Foundry.

Cerddoriaeth

Mae gosodiad y *Kyrie*, *Sanctus*, *Benedictus* a'r *Agnus Dei*, yn ogystal â'r *Veni Creator Spiritus* adeg yr ymbil, wedi eu cyfansoddi'n neilltuol a chânt eu perfformiad cyntaf yma heddiw.

Cyfansoddiad gan Joe Cooper, Cyfarwyddwr Cerdd Cadeirlan Deiniol Sant yw'r **Cymun ar Emyn-Donau Cymreig**. Mae'n osodiad sy'n myfyrio ar y cyfuniad neilltuol Gymreig o Gristnogaeth, rhai o emyn-donau enwocaf Cymru yn arlwy newydd.

Mae'r *Kyrie* yn defnyddio'r alaw "Aberystwyth". Mae codiad a chwymp pob cymal o nodyn y tonydd yn cynnig ymadroddion gwastad, sy'n atgoffa rhywun o rythm anadlu ystyriol.

Mae'r *Sanctus* a'r *Benedictus* yn manteisio ar y deunydd genetig cyffredin o draw a rhythm sy'n uno llawer o alawon Cymreig. Yn ystod y symudiad hwn mae'r alawon "Ebeneser", "Tua Bethlem Dref" a "Blaenwern" yn cael eu harosod i greu gwead ecstatig sy'n dwyn i gof weledigaeth o'r angylion a'r archangylion yn canu mawl yn y nefoedd.

Mae'r *Agnus Dei* yn ymhyfrydu yn ffigwr esgynnol "Llangloffan" a'i nodau ailymadroddus. Mae datblygiad y symudiad hwn, sy'n llawn ataliadau, yn dwyn i gof boen yr aberth cyn cyrraedd llwyfandir cerddorol sy'n adleisio heddwch tragwyddoldeb a chyfarfyddiad.

Gosodir y ***Veni Creator Spiritus*** gan Simon Ogdon, un o Glercod Lleyg y Gadeirlan. Mae'r testun yn fersiwn mydryddol o'r emyn hynafol gan y Tad Ioan Huw Jones (1843-1910), offeiriad Catholig barddonol a dreuliodd lawer o'i weinidogaeth ym Mangor a Caernarfon. Wedi'i ysbrydoli gan y cyfuniad o ryfeddod a braw a brofwyd ar y Sulgwyn, mae'r gosodiad yn ceisio cynnal ymdeimlad o anesmwythder a gobaith ar y cyd.

Mae'r cyfansoddiadau newydd hyn yn deillio o'r buddsoddiad creadigol ac efengylaidd a wneir yng Nghadeirlan Deiniol Sant mewn cerddoriaeth gorawl Gymraeg ac yng ngwreiddio addoliad Anglicanaidd o fewn ein diwylliant Cymreig.

Music

The setting of the *Kyrie*, *Sanctus*, *Benedictus* and *Agnus Dei*, as well as of the *Veni Creator Spiritus* at the intercession, have been composed specially for this service and receive their first performance today.

The **Cymun ar Emyn-Donau Cymreig** or **Communion on Welsh Hymn Tunes**, is by Joe Cooper, Director of Music at Saint Deiniol's Cathedral. The setting draws on the deep associations between Christianity, hymnody and culture in Wales, reworking some of the most famous Welsh hymn tunes into a new offering.

The *Kyrie* uses the tune "Aberystwyth". The rise and fall of each phrase from the tonic note makes for even phrases, reminiscent of the rhythm of mindful breathing.

The *Sanctus* and *Benedictus* takes advantage of the common genetic material of pitch and rhythm that unites many Welsh tunes. During this movement the tunes "Ebeneser", "Tua Bethlem Dref" and "Blaenwern" are superimposed to create an ecstatic texture evoking a vision of the angels and archangels singing praises in heaven.


The *Agnus Dei* explores the ascending figure and repeating notes of "Llangloffan". The pacing of this movement, filled with suspensions, evokes the pain of the sacrifice before arriving at a musical plateau echoing the peace of eternity and encounter.

The setting of the ***Veni Creator Spiritus*** is by Simon Ogdon, one of the Cathedral's Lay Clerks. The text is a metrical version of the ancient hymn by Fr Ioan Huw Jones (1843-1910), a Catholic priest and poet who spent much of his ministry in Bangor and Caernarfon. Inspired by the mixture of wonder and terror experienced on the Day of Pentecost, the setting seeks to capture a sense both of trepidation and hope.

These new compositions flow from the creative and evangelistic investment being made at Saint Deiniol's Cathedral both in Welsh-language choral music and in rooting Anglican worship within our Welsh culture.

Trefn y gwasanaeth

The order of service



Eisteddwn tra bo Canoniaid Cadeirlan Llanelwy, Canoniaid Cadeirlan Aberhonddu, cynrychiolwyr eciwmenaidd, Archddiaconiaid Cymru, Deoniaid Cymru ac esgobion cynorthwyol yn cael eu hebrwng i'w seddau yn y Seintwar

We remain seated as the Canons of St Asaph Cathedral, the Canons of Brecon Cathedral, ecumenical representatives, the Archdeacons of Wales, the Deans of Wales and assisting bishops take their seats in the Presbytery


Cerddoriaeth | Music
Ffanffer | Fanfare, William Mathias (1934-1992)

Codwn ar ein traed ar ganiad y gloch ar gyrhaeddiad Gweision Bwrdd yr Allor, Côr y Gadeirlan, Coleg Offeiriadol y Gadeirlan, Cofrestryddion yr Archesgob, Canghellor Esgobaeth Bangor, Cabidwl y Gadeirlan, y Gweinidogion Cysegredig, yr Ymgeiswyr, Esgobion Cymru ac Archesgob Cymru

We stand as the bell is rung upon the entrance of the Altar-Table Servers, the Cathedral Choir, the College of Priests of the Cathedral, the Archbishop's Registrars, the Chancellor of the Diocese of Bangor, the Cathedral Chapter, the Sacred Ministers, the Candidates, the Bishops of Wales and the Archbishop of Wales



Cynnull Gathering



Emyn Hymn



Crown him with many crowns,
the Lamb upon his throne;
hark! how the heavenly anthem drowns
all music but its own:

awake, my soul, and sing
of him who died for thee,
and hail him as thy matchless King
through all eternity.

Crown him the Virgin's Son,
the God incarnate born,
whose arm those crimson trophies won
which now his brow adorn:
fruit of the mystic Rose,
as of that Rose the Stem;
the Root whence mercy ever flows,
the Babe of Bethlehem.

Ef, Brenin cariad yw,
O gwêl ei glwyfau ef;
fe'u gwelir mewn gogoniant pur
yn uchder nef y nef.
Mae holl angyllion nef
yn plygu pen bob un,
er mwyn osgoi y disglair wawl
ddaw o'i ddirgelion cun.

**Mae teyrnas Crist gerllaw;
coronwch Frenin hedd.
Na foed rhyfeloedd mwy drwy'r byd,
dim trais na sŵn y cledd –
mae dinas acw fry
llawn o'i ogoniant ef;
a chân cenedloedd byd bob un
ei foliant yn y nef.**

**Crown him the Lord of years,
the Potentate of time,
creator of the rolling spheres,
ineffably sublime.
Glassed in a sea of light,
where everlasting waves
reflect his throne – the Infinite!
Who lives – and loves – and saves.**

Geiriau | Words

Matthew Bridges (1800-1894)

Cyfieithiad | Translation

Hywel M. Griffiths

Cerddoriaeth | Music | “Diademata”

George Job Elvey (1816-1893)

Translation

*Crown him the Lord of love! / Behold his hands and
side, / rich wounds yet visible above / in beauty
glorified: / no angel in the sky / can fully bear that
sight, / but downward bends his burning eye / at
mysteries so bright. // Crown him the Lord of peace,
/ whose power a sceptre sways / from pole to pole,
that wars may cease, / absorbed in prayer and
praise: / his reign shall know no end, / and round his
piercèd feet / fair flowers of Paradise extend / their
fragrance ever sweet.*



Cyfarchiad Greeting

✠ Yn enw'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân.

Amen.

Translation

✠ *In the name of the Father, and of the Son, and of the Holy Spirit. Amen.*

Grace and peace be with you.

And keep you in the love of Christ.

Dearly beloved, the Church is the Body of Christ, the people of God and the dwelling-place of the Holy Spirit. All who are united with Christ through Baptism are called to serve him in the Church and in the world. We have come together today to ordain and consecrate John and Mary to the order of bishop, believing that God has called them to this ministry. We will lay hands upon them, invoking the Holy Spirit, that they may serve faithfully among God's people in the name of Jesus Christ, the Good Shepherd.

"Ar lan Môr Tiberias, meddai Iesu wrth Simon Pedr, 'Simon fab Ioan, porth fy ŵyn; bugeilia fy nefaid.'"

Translation

"By the Sea of Tiberias, Jesus said to Simon Peter, 'Simon son of John, feed my lambs; tend my sheep.'"

Kyrie eleison

Kyrie eleison. Christe eleison. Kyrie eleison.

Cyfieithiad

Arglwydd, trugarha. Crist, trugarha. Arglwydd, trugarha.

Translation

Lord, have mercy. Christ, have mercy. Lord, have mercy.

Cerddoriaeth | Music

Cymun ar Emyn-Donau Cymreig | Communion on Welsh Hymn Tunes, Joe Cooper

Gweddi Gasgl Collect

Gweddiwn.

ODduw,
diolchwn i ti am ein galw trwy dy Fab
i gymdeithas dy Eglwys gyffredinol:
gwrando ein gweddïau dros dy bobl ffyddlon
fel y bo iddynt yn eu galwedigaeth a'u gweinidogaeth
fod yn gyfryngau dy gariad;
a dyro i'th weision John and Mary,
sydd yn awr i'w hordeinio a'u cysegru,
ddoniau gras, sancteiddrwydd a chariad;
trwy'r un Iesu Grist ein Gwardwr.

Amen.

Translation


O God, we thank you that through your Son you have called us into the fellowship of your universal Church: hear our prayers for your faithful people that in their vocation and ministry they may be instruments of your love; and give to your servants John and Mary, now to be ordained and consecrated, the gifts of grace, holiness and love; through the same, Jesus Christ our Saviour. Amen.

Eisteddwn


We sit



Gair Word



Salmyddiaeth Psalmody



∇ Fy enaid balch o radd i radd fel baban a ddiddyfnais.

R? Fy enaid balch o radd i radd fel baban a ddiddyfnais.

∇ O Dduw, nid yw fy nghalon yn drahaus,
na'm llygaid yn falch;
nid wyf yn ymboeni am bethau rhy fawr,
nac am bethau rhy ryfeddol i mi.

R? Fy enaid balch o radd i radd fel baban a ddiddyfnais.

∇ Yr wyf wedi tawelu a distewi fy enaid,
fel plentyn ar fron ei fam;
fel plentyn y mae fy enaid.
O Israel, gobeithia yn Nuw yn awr a hyd byth.

R? Fy enaid balch o radd i radd fel baban a ddiddyfnais.

∇ Mor dda ac mor ddymunol yw i bobl fyw'n gytûn.
Y mae fel olew gwerthfawr ar y pen,
yn llifo i lawr dros y farf,
dros farf Aaron, yn llifo i lawr dros goler ei wisgoedd.

R? Fy enaid balch o radd i radd fel baban a ddiddyfnais.

∇ Y mae fel gwllith Hermon
yn disgyn i lawr ar fryniau Seion.
Oherwydd yno y gorchmynnodd Dduw fendith,
bywyd hyd byth.

R? Fy enaid balch o radd i radd fel baban a ddiddyfnais.

Translation

R? I still my soul and make it quiet, like a child upon
its mother's breast. ∇ O God, I am not proud; I

have no haughty looks. I do not occupy myself with great matters, or with things that are too hard for me. But I still my soul and make it quiet, like a child upon its mother's breast; my soul is quieted within me. O Israel, wait upon God, from this time forth for evermore. O, how good and pleasant it is, when kindred live together in unity. It is like fine oil upon the head that runs down upon the beard, Upon the beard of Aaron, and runs down upon the collar of his robe. It is like the dew of Hermon that falls upon the hills of Zion. For there has God ordained the blessing: life for evermore.

Salmau | Psalms 131, 133

Cerddoriaeth | Music

Simon Ogdon

ar sail yr alaw blaengan | after the plainsong melody

“Veni, Creator Spiritus”

Darlleniad Reading

A reading from the First Letter of Saint Peter.

Dearly beloved: As an elder and a witness of the sufferings of Christ, as well as one who shares in the glory to be revealed, I exhort the elders among you to tend the flock of God that is in your charge, exercising the oversight, not under compulsion but willingly, as God would have you do it – not for sordid gain but eagerly. Do not lord it over those in your charge, but be examples to the flock. And when the chief shepherd appears, you will win the crown of glory that never fades away. Humble yourselves therefore under the mighty hand of God, so that you may be exalted in due time. Cast all your anxiety on God, who cares for you. Discipline yourselves; keep alert. Like a roaring lion your adversary the devil prowls around, looking for someone to devour. Resist, steadfast in your faith, for you know that your beloved ones throughout the world are undergoing the same kinds of suffering. And after you have suffered for a little while, the God of all grace, who has called you to eternal glory in Christ, will restore, support, strengthen, and establish you. To God be the power for ever and ever. Amen.

Hear the word of life to the world.

Thanks be to God.

1 Pedr | Peter 5:1-4, 6-11

Codwn ar ein traed, gan droi i wynebu Llyfr yr Efengylau yng Nghorff yr Eglwys

We stand, turning to face the Book of the Gospels in the Nave



Efengyl Gospel



∇ Alleluia. Alleluia. Alleluia.

℞ **Alleluia. Alleluia. Alleluia.**

∇ Jesus said to Simon Peter, "Simon son of John, do you love me?"

℞ **Alleluia. Alleluia. Alleluia.**

∇ Peter said to him, "Lord, you know everything; you know that I love you."

℞ **Alleluia. Alleluia. Alleluia.**

∇ Jesus said to Simon Peter, "Simon son of John, feed my sheep."

℞ **Alleluia. Alleluia. Alleluia.**

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.

A'th gadw di yng nghariad Crist.

Gwrandewch yr Efengyl Sanctaidd yn ôl ✠ Sant Ioan.

Gogoniant i ti, O Grist.

Bryd hynny: Amlygodd Iesu ei hun unwaith eto i'w ddisgyblion, ar lan Môr Tiberias. A dyma sut y gwnaeth hynny. Pan ddaeth y bore, safodd Iesu ar y lan, ond nid oedd y disgyblion yn gwybod mai Iesu ydoedd. Dyma Iesu felly'n gofyn iddynt, "Does gennych ddim pysgod, fechgyn?" "Nac oes," atebasant ef. Meddai yntau wrthynt, "Bwriwch y rhwyd i'r ochr dde i'r cwch, ac fe gewch helpa." Gwnaethant felly, ac ni allent dynnu'r rhwyd i mewn gan gymaint y pysgod oedd ynddi. A dyma'r disgybl hwnnw yr oedd Iesu'n ei garu yn dweud wrth Pedr, "Yr Arglwydd yw." Wedi iddynt lanio, gwelsant dân golosg wedi ei osod, a physgod arno, a bara. "Dewch," meddai Iesu wrthynt, "cymerwch frecwast." Ond nid oedd neb o'r disgyblion yn beiddio gofyn iddo, "Pwy wyt ti?" Yr oeddent yn gwybod mai yr Arglwydd ydoedd. Daeth Iesu atynt, a chymerodd y bara a'i roi iddynt, a'r pysgod yr un modd. Dyma, yn awr, y drydedd waith i Iesu ymddangos i'w ddisgyblion ar ôl iddo gael ei gyfodi oddi wrth y meirw. Yna, wedi iddynt gael brechwast, gofynnodd Iesu i Simon Pedr, "Simon fab Ioan, a wyt ti'n fy ngharu i yn fwy na'r rhain?" Atebodd ef, "Ydwyf, Arglwydd, fe wyddost ti fy mod yn dy garu di." Meddai Iesu wrtho, "Portha fy wŷn." Wedyn

gofynnodd iddo yr ail waith, "Simon fab loan, a wyt ti'n fy ngharu i?" "Ydwyf, Arglwydd," meddai Pedr wrtho, "fe wyddost ti fy mod yn dy garu di." Meddai Iesu wrtho, "Bugeilia fy nefaid." Gofynnodd iddo y drydedd waith, "Simon fab loan, a wyt ti'n fy ngharu i?" Aeth Pedr yn drist am ei fod wedi gofyn iddo y drydedd waith, "A wyt ti'n fy ngharu i?" Ac meddai wrtho, "Arglwydd, fe wyddost ti bob peth, ac rwyt ti'n gwybod fy mod yn dy garu di." Dywedodd Iesu wrtho, "Portha fy nefaid. Yn wir, yn wir, rwy'n dweud wrthyf, pan oeddit yn ifanc, yr oeddit yn dy wregysu dy hunan, ac yn mynd lle bynnag y mynnit. Ond pan fyddi'n hen, byddi'n estyn dy ddwylo i rywun arall dy wregysu, a mynd â thi lle nad wyt yn mynnu." Dywedodd hyn i ddangos beth fyddai dull y farwolaeth yr oedd Pedr i ogoneddu Duw trwyddi. Ac wedi iddo ddweud hyn, meddai wrth Pedr, "Canlyn fi."

Dyma Efengyl ein Gwardwr.

Moliant i ti, O Grist.

Translation

At that time: Jesus showed himself again to the disciples by the Sea of Tiberias; and he showed himself in this way. Just after daybreak, Jesus stood on the beach; but the disciples did not know that it was Jesus. Jesus said to them, "Children, you have no fish, have you?" They answered him, "No." He said to them, "Cast the net to the right side of the boat, and you will find some." So they cast it, and now they were not able to haul it in because there were so many fish. That disciple whom Jesus loved said to Peter, "It is the Lord!" When they had gone ashore, they saw a charcoal fire there, with fish on it, and bread. Jesus said to them, "Come and have breakfast." Now none of the disciples dared to ask him, "Who are you?" because they knew it was the Lord. Jesus came and took the bread and gave it to them, and did the same with the fish. This was now the third time that Jesus appeared to the disciples after he was raised from the dead. When they had finished breakfast, Jesus said to Simon Peter, "Simon son of John, do you love me more than these?" He said to him, "Yes, Lord; you know that I love you." Jesus said to him, "Feed my lambs." A second time he said to him, "Simon son of John, do you love me?" He said to him, "Yes, Lord; you know that I love you." Jesus said to him, "Tend my sheep." He said to him the third time, "Simon son of John, do you love me?" Peter felt hurt because he said to him the third time,



“Do you love me?” And he said to him, “Lord, you know everything; you know that I love you.” Jesus said to him, “Feed my sheep. Very truly, I tell you, when you were younger, you used to fasten your own belt and to go wherever you wished. But when you grow old, you will stretch out your hands, and someone else will fasten a belt around you and take you where you do not wish to go.” (He said this to indicate the kind of death by which he would glorify God.) After this he said to him, “Follow me.”

Ioan | John 21:1, 4-7, 9, 12-19

Eisteddwn ar gychwyn y bregeth

We sit at the start of the sermon

Pregeth Sermon

Archddiacon Ynys Môn

The Archdeacon of Anglesey

Ar derfyn y bregeth, codwn ar ein traed

At the end of the sermon, we stand

Credo Creed

Together, let us affirm our faith.

**I believe and trust in God the Father,
who created all that is.**

**I believe and trust in his Son Jesus Christ,
who redeemed humankind.**


**I believe and trust in his Holy Spirit,
who gives life to the people of God.**

**I believe and trust in one God,
✠ Father, Son and Holy Spirit. Amen.**

Eisteddwn

We sit

Ordeinio Ordination



Cyflwyniad Presentation

Bydd Cofrestrydd yr Archesgob yn anrhegu'r Mandadau i'r Archesgob cyn cyflwyno'r ymgeiswyr

The Archbishop's Registrar entrusts the Mandates to the Archbishop before presenting the candidates

Most Reverend Archbishop, we present John and Mary to be ordained and consecrated to the order of bishop in the Church of God.

John and Mary, do you believe that God has called you to the office and work of a bishop in the Church of God?

I believe that God has called me.

People of God, this is John, whom we propose to ordain and consecrate to the order of bishop. I therefore ask you to declare your assent to his consecration.

Do you trust that he is worthy to be ordained bishop?

We trust that he is worthy: thanks be to God.

People of God, this is Mary, whom we propose to ordain and consecrate to the order of bishop. I therefore ask you to declare your assent to her consecration.

